***Atodiad 1***

# Adroddiad gan Grŵp Aelodau Talgylch Porthmadog ynglŷn ag Anghenion Lletya a Gofal y Dalgylch

## 1.0 Cefndir

1.1 Yng nghyfarfod o'r Cyngor ar 15 Rhagfyr 2011 gofynnwyd am "…drafod yn dryloyw a thrwyadl er mwyn sicrhau darparu yn addas ar gyfer gofynion a dyheadau'r gymuned…". Ar 21 Mehefin 2012 adroddwyd ymhellach ynglŷn â hyn a'r bwriad i gynnal trafodaeth leol parthed asesu'r anghenion llety a gofal talgylch Porthmadog.

1.2 Ers hynny sefydlwyd Grŵp Aelodau Lleol Talgylch Porthmadog sy'n cynnwys y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, Alwyn Gruffydd, Stephen Churchman, Aled Evans, Eirwyn Williams, Gareth Thomas, Caerwyn Roberts, Cynghorydd R H Wyn Williams, Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynghorydd Paul Thomas, Aelod Cabinet Darparu a Hamdden. Hefyd yn aelodau o'r Grŵp oedd cynrychiolwyr o Gymdeithas Tai Eryri, Gofal a Thrwsio, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Age Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

1.3 Mae'r Grŵp wedi cyfarfod naw tro ac yn y cyfarfodydd hynny wedi:-

a) ystyried sut i gynnal arolwg lleol i asesu anghenion llety a gofal y dalgylch

b) cymeradwyo dogfen drafod a holiadur

c) cynorthwyo dosbarthu'r dogfennau a chynnal neu fynychu cyfarfodydd lleol fel rhan o'r arolwg

ch) derbyn cyflwyniad gan Iwan Wyn Jones, Rheolwr Uned Ymchwil, Cyngor Gwynedd ar ganlyniadau'r asesiad.

d) ystyried y canlyniadau ac adnabod y prif negeseuon sydd ynghlwm.

dd) llunio argymhellion i'w cyflwyno i sylw Cyngor Gwynedd

1.4 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r prif negeseuon a'r argymhellion hynny. Ynghlwm mae crynodeb sydd wedi'i ddosbarthu yn eang tra mae'r ddogfen ganlyniadau llawn a'r ddogfen drafod wreiddiol "Llety a Gofal ar gyfer Pobl Hŷn yn Nalgylch Porthmadog" ar www.gwynedd.gov.uk/asesiad.

## 2.0 Prif Negeseuon o'r Asesiad Anghenion

2.1 Y prif negeseuon a adnabuwyd gan y Grŵp yw:-

a) cadarnhad mai byw adref mae pobl am wneud (74.4%)

b) ond 44.9% yn teimlo fod eu cartref yn addas ar gyfer y dyfodol

c) y tri rheswm a roddwyd pam nad yw eu cartref presennol yn addas:-
   - rhy fawr
   - rhy ddrud i'w gynhesu
   - gardd rhy fawr.

   Nodwyd pryderon (63.9%) ynglŷn â chostau byw.

ch) yr angen i sicrhau dewisiadau tai i alluogi pobl symud i dai llai. Adnabuwyd ‘grisiau’ tai a gofal – byw adref, tai llai, tai gwarchod, tai gofal ychwanegol, cartref preswyl a chartref nyrsio.

d) anghenion cymdeithasu – 62% o ymatebwyr eisiau cyfleoedd cymdeithasu gyda phobl o’r un oed pan maent yn hŷn.

dd) llai na 5% yn dechrau paratoi am sut fyddent yn ymdopi pan yn hŷn.

e) dewis mwyafrif (73.3%) i dderbyn gofal personol yn eu cartrefi gyda chymorth addasiadau yn hytrach na mynd i ganolfan/gartref preswyl.

f) cadarnhad o’r angen am ofal preswyl yn y dalgylch yn arbennig wrth i anghenion gofal unigolion gynyddu.

2.2 Rhannwyd y prif negeseuon i dri chategori gan adnabod ymatebion neu opsiynau gweithredu i'w hystyried:-

a) Aros adref
   - annog pobl i fuddsoddi mewn addasiadau a hwyluso mynediad at addasiadau
   - sut gellid cynorthwyo gyda chostau cynhesu tai? Oes potensial i'r Cyngor brynu ynni yn rhatach
   - mynediad at wybodaeth o beth sydd ar gael? Oes cyfle cynnal digwyddiadau, defnyddio Bws Mantell Gwynedd?
   - cefnogaeth i fyw adref – galluogi, teleofal.

b) Symud
   - yr angen am dai llai – tai cymdeithasol a thai preifat
   - diffinio rôl tai gwarchod
   - cynllunio i adlewyrchu newid demograffig y gymuned
   - hwyluso cymorth i bobl symud
   - sefydlu grisiau tai/gofal - uned lai, tai gwarchod, tai gofal ychwanegol a gofal preswyl/nyrsio.

c) Materion Gofal a Lles
   - cyfleuon cymdeithasu
   - cludiant
   - hwyluso pobl i brynu gwasanaethau dros eu hunain
   - pwysigrwydd ymyrraeth gynnar – buddsoddi er mwyn elwa yfory.

## 3.0 Anghenion Lletya a Gofal Penodol

3.1 Mae’r uchod yn cynnwys nifer o faterion sydd angen eu hystyried gan wahanol wasanaethau ac asiantaethau. Roedd barn gref fod rhaid tynnu sylw i’r angen am dai i bobl hŷn, yn enwedig byngalos, fyddai yn caniatáu unigolion symud i unedau llai yn hytrach na mynd i ofal preswyl fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

3.2 Yn fwy penodol yw adnabod yr angen am lety pobl hŷn a darpariaeth gofal preswyl y dalgylch yng nghyd-destun dyfodol cartref preswyl Hafod y Gest.

Crynhowyd y sefyllfa bresennol fel a ganlyn:-
- cefnogaeth i'r ddarpariaeth gofal sydd yno rŵan a chanmoliaeth i staff
- cydnabyddiaeth fod angen newid oherwydd cyflwr yr adeilad, gofynion sy’n newid a chynnydd disgwyliadau ac nid yw’r ‘status quo’ yn opsiwn
- cydnabyddiaeth mai’r safle presennol yw’r safle gorau i ddatblygiad newydd.

3.3 Ystyriwyd yr angen am fodel fwy hyblyg sy’n cynnwys:-
- Gofal preswyl
- Gofal dementia dwys
- Unedau byw yn gwbl annibynnol
- Cefnogaeth ymarferol i hybu annibyniaeth
- Canolfan gofal cymunedol/estyn allan
- Darpariaeth gymunedol a gofal dydd.

3.4 Yn dilyn cais gan y Grŵp bu i Gymdeithas Tai Eryri ail-ymweld â’r cynlluniau tai gofal ychwanegol a ddyluniwyd yn 2011 gan addasu’r cynllun i gynnwys uned breswyl o 10 gwely. Roedd ôl-troed y cynllun yn golygu defnyddio tir lle safai Canolfan Ddydd Madog fyddai yn golygu sicrhau darpariaeth newydd gofal dydd yn rhan o’r cynllun tai gofal ychwanegol a chynyddu defnydd Encil y Coed, Criccieth.

3.5 Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â beth fyddai hyn yn ei olygu o safbwynt
- yr angen am uned breswyl;
- cost ac ariannu cynllun o dai gofal ychwanegol fyddai’n cynnwys uned breswyl;
- cost rhedeg uned breswyl a beth fyddai hyn yn ei olygu i drigolion o’i gymharu â chost i denant yn y tai gofal ychwanegol,
- sut ellid darparu gofal dydd drwy weithgareddau cymunedol.

Adroddwyd hefyd ar y cyfle i greu ‘canolbwynt cymunedol’ gyda chyfleusterau megis bwyty, lolfeydd, lle trin gwallt/siop a golchdy.

3.6 Y casgliad o’r drafodaeth yma oedd cytuno fod angen uned o 10 gwely preswyl ‘traddodiadol’ sy’n rhan o ddatblygiad o dai gofal ychwanegol i'w hadeiladu ar safle presennol Hafod y Gest. Roedd y Grŵp yn awyddus i sicrhau hyblygrwydd i’r dyfodol fyddai yn gallu ymateb i anghenion megis y cynnydd yn y galw am ofal preswyl dementia. Gwelwyd y datblygiad yn ymateb i anghenion lleol a phobl â chyswllt lleol gyda’r ardal.

3.7 Mynegwyd pryderon ynglŷn ag oblygiadau hyn ar drigolion a staff cartref Hafod y Gest gan ddatgan dymuniad i bob dim gael ei wneud i leihau'r effaith. Gofynnwyd i’r Cyngor weithredu yn rhagweithiol i sicrhau hyn gan gyfeirio yn benodol i’r angen i hwyluso symud y trigolion gyda’i gilydd gymaint â phosib.

## 4.0 <u>Casgliadau ac Argymhellion</u>

4.1 Mae’r asesiad anghenion llety a gofal talgylch Porthmadog wedi amlygu anghenion yr ardal gan gadarnhau'r hyn oedd pawb yn ei dybio h.y. byw adref yw dyhead pawb ond fod angen cefnogaeth pan yn briodol i ganiatáu hyn gan gynnwys dewisiadau tai i bobl hŷn. Yn ychwanegol i hyn adnabuwyd yr angen am ofal preswyl yn yr ardal.

4.2 Yn benodol daethpwyd i gasgliad ynglŷn â sefyllfa cartref Hafod y Gest gyda chydnabyddiaeth nad yw’r ‘status quo’ yn opsiwn ond fod angen darpariaeth breswyl fel rhan o ddatblygiad mwy o dai gofal ychwanegol.

4.3 Mae’r Grŵp Aelodau Lleol Talgylch Porthmadog yn argymell i’r Cyngor y dylid :-

1) Ystyried datblygu cynllun o dai gofal ychwanegol ar safle cartref Hafod y Gest fydd yn cynnwys uned gofal preswyl

2) Gweithredu yn rhagweithiol i leihau effaith hyn ar drigolion a staff Hafod y Gest a defnyddwyr a staff Canolfan Madog gymaint â phosib

3) Ystyried sut y gellir diwallu'r angen am dai pobl hyn, yn enwedig byngalos, yn yr ardal.

4) Rhoi ystyriaeth bellach ar y cyd ac asiantaethau eraill i’r gefnogaeth sydd ar gael yn yr ardal i alluogi pobl hyn fyw adref gan gyfeirio i’r wahanol anghenion a nodwyd ym mharagraff 2.2